



rhondda cynon taf
community infrastructure levy

ardoll seilwaith cymunedol

(CIL)

Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd)

Rheoliad 62

Adroddiad Monitro 2018/19

Rheoliad 62 – Adroddiad Monitro 2018/19

Cefndir

Daeth Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”) i rym ar 31 Rhagfyr 2014. Mae'r Cyngor yn Awdurdod Codi Tâl ac yn Awdurdod Casglu Taliadau o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae rheoliad 62 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Codi Tâl baratoi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar incwm a gwariant o ran Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol Cyngor Rhondda Cynon Taf sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019.

Dyrannu Ardoll Seilwaith Cymunedol

Mae'n ofynnol dyrannu incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol fel a ganlyn:

- Mae modd defnyddio hyd at 5% o Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer gweithredu a gwaith gweinyddu parhaus
- Mae 15% o Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei roi i'r Cyngor Tref/Cymuned mae'r datblygiad a dalodd yr Ardoll wedi ei leoli y tu mewn i'w ffiniau, er mwyn darparu gwaith gwella seilwaith lleol neu fesurau eraill ar gyfer helpu i ddatblygu'r ardal (y cyfeirir ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol).
- Mae 80% o Ardoll Seilwaith Cymunedol i'w ddefnyddio ar gyfer seilwaith strategol i helpu ffyniant ardal yr Awdurdod Codi Tâl (y cyfeirir ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol).

Cyfanswm incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol

Cyfanswm incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2018/19 oedd £301,403.83

Mae'r manylion am holl dderbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, a sut maen nhw'n cael eu rhannu, i'w gweld yn Atodiad A.

Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol 80% (i'w wario ar eitemau ar Restr Rheoliad 123)

Incwm Strategol yn 2018/19 oedd £242,789.54

Incwm Strategol a ddygwyd ymlaen o 2017/18 oedd £394,779.23

Balans incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol oedd £637,568.77

Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol 15%

Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol yn 2018/19 oedd £43,202.07

Mae yna 12 ardal Cyngor Cymuned/Tref yn Rhondda Cynon Taf, sef: Ffynnon Taf, Y Gilfach-goch, Hirwaun, Llanharan, Llanhari, Llanilltud Faerdref, Llantrisant, Pont-y-clun, Pontypridd, Y Rhigos, Tonyrefail ac Ynys-y-bŵl

Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol (15%) a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018 oedd £17,401.24. Cafodd ei roi i'r Cyngor Cymuned/Tref perthnasol ym mis Hydref 2018

Cafodd £25,800.83 a ddaeth i law rhwng 1 Hydref 2018 a 31 Mawrth 2019 ei roi i'r Cyngor Tref/Cymuned perthnasol erbyn Ebrill 2019.

Balans i ardaloedd heb Gyngor Tref/Cymuned yn 2018/19 oedd £2,218.36

Mae'r swm a drosglwyddwyd i bob Cyngor Tref/Cymuned wedi'i bennu yn Atodiad B.

Gwaith Gweinyddu 5%

Incwm Gwaith Gweinyddu yn 2018/19 oedd £15,052.22

Incwm Gwaith Gweinyddu a ddygwyd ymlaen o 2017/18 oedd £24,600.59

Balans incwm Gwaith Gweinyddu oedd £39,652.81

Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddygwyd ymlaen i 2019/20

Mae swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddygwyd ymlaen i 2019/20 wedi'i bennu yn y tabl canlynol:

ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL A DDYGWYD YMLAEN	SWM
Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol	£637,568.77
Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol	£25,800.83 (talwyd ym mis Ebrill 2019) Ardaloedd heb Gyngor Tref/Cymuned £2,218.36
Gwaith Gweinyddu Ardoll Seilwaith Cymunedol	£39,652.81

Atodiad A – INCWM ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL YN 2018/2019

Dyddiad dod i law	Cais cynllunio Cyfeirnod	Cyfeiriad y safle	Ardoll Seilwaith Cymunedol – Math o ddatblygiad	Swm	Gweinyddu	Strategol	Lleol (Cyngor Cymuned / Tref)
03/04/18	17/0562	Cam 2A Dyffryn Teras, Tonyrefail	Parth 2	£4,355.81	£217.78	£3,484.66	£653.37
09/04/18	16/0501	Fir Tree Hollow, Castell-y-mwnws, Llanhari	Parth 3	£6,293.34	£314.68	£5,191.99	£786.67
02/05/18	16/0763	Danygraig, Prif Ffordd, Tonteg	Parth 3	£10,719.25	£535.96	£8,575.40	£1,607.89
03/05/18	17/1359	Meddygfa Ynysangharad, Pontypridd	Parth 3	£314.31	£15.73	£251.42	£47.16
04/05/18	15/0733	Storfeydd a Swyddfa'r Post Bryn-cae, Ffordd Pen-y-bont ar Ogwr, Llanharan	Manwerthu	£11,201.12	£560.05	£9,247.18	£1,393.89
04/05/18	17/0462	Tir i'r Gogledd o Nant Arian,	Parth 3	£41,243.32	£2,062.17	£32,994.65	£6,186.50

		Pentre'r Eglwys					
03/05/18	17/1101	Nisa, Ffordd Llantrisant, Llanilltud Faerdref	Manwerthu	£16,848.69	£842.42	£13,861.47	£2,144.80
11/05/18	16/0771	Hen Safle Ysgol Feithrin Hirwaun, Hirwaun	Manwerthu	£24,507.45	£1,225.37	£19,605.96	£3,676.12
05/06/18	16/1269	11 Cwrt Pentwyn, Llanilltud Faerdref	Parth 3	£7,631.83	£381.58	£6,345.41	£904.84
28/09/18	17/0462	Tir i'r Gogledd o Nant Arian, Pentre'r Eglwys	Parth 3	£41,243.32	£2,062.17	£32,994.65	£6,186.50
04/10/18 a 21/03/19	17/1338	Tir wrth ymyl 26 Stryd Llwynmadoc, Pontypridd	Parth 2	£17,350 ac £2,500	£992.50	£16,255.00	£2,602.50
05/11/18	13/0633	Hen Orsaf yr Heddlu, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf	Parth 3	£5,145.24	£257.27	£4,116.18	£771.79
05/11/18	15/1616	Tir ger Woodland Heights, Ffordd y Fynwent, Tŷ	Parth 3	£18,717.46	£935.88	£15,487.56	£2,294.02

		Rhiw, Ffynnon Taf					
20/11/18	17/0562	Cam 2C Dyffryn Teras, Tonyrefail	Parth 2	£2,106.11	£105.31	£1,684.86	£315.94
09/01/19	17/0562/10	Cam 2D, Dyffryn Teras, Tonyrefail	Parth 2	£2,106.11	£105.31	£1,684.86	£315.94
21/01/19	17/0462	Tir i'r Gogledd o Nant Arian, Pentre'r Eglwys	Parth 3	£41,243.32	£2,062.17	£32,994.65	£6,186.50
31/01/19	18/0663/10	5 Lionel Terrace, Rhydfelen	Parth 2	£1,155.77	£57.79	£924.62	£173.36
21/02/19	18/0736/10	Hen Safle Clwb Hillside, Tonyrefail	Parth 2	£40,043.05	£2,002.15	£32,034.44	£6,006.46
28/02/19	17/0462	Cam 2c Teras Duffryn, Tonyrefail	Parth 2	£2,106.11	£105.31	£1,684.86	£315.94
28/02/19	17/0462	Cam 2b, Teras Duffryn, Tonyrefail	Parth 2	£2,106.11	£105.31	£1,684.86	£315.94
19/03/19	17/0462	Cam 2d, Teras Duffryn, Tonyrefail	Parth 2	£2,106.11	£105.31	£1,684.86	£315.94

*Nodyn: O dan Reoliad 88, ni cheir dyrannu gordaliadau i Gyngorau Tref/Cymuned, a rhaid eu hollti'n 5% at waith gweinyddu a 95% at seilwaith strategol.

Atodiad B – INCWM SEILWAITH LLEOL CYNGHORAU TREF/CYMUNED

Cyngor Tref/Cymuned	15% gafodd ei dderbyn yn 2018/19 i'w drosglwyddo i'r cyngor lleol	Swm a dalwyd ym mis Hydref 2018	Swm a dalwyd ym mis Ebrill 2019	Balans
Y Gilfach-goch	£0	£0	£0	£0
Hirwaun	£3,676.12	£3,676.12	£0	£0
Llanharan	£1,393.89	£1,393.89	£0	£0
Llanhari	£786.67	£786.67	£0	£0
Llantrisant	£0	£0	£0	£0
Llanilltud Faerdref	£23,217.03	£10,844.03	£12,373.00	£0
Pont-y-clun	£0	£0	£0	£0
Pontypridd	£2,823.02	£47.16	£2,775.86	£0
Y Rhigos	£0	£0	£0	£0
Ffynnon Taf	£3,065.81	£0	£3,065.81	£0
Tonyrefail	£8,239.53	£653.37	£7,586.16	£0
Ynys-y-bŵl	£0	£0	£0	£0
Ardal heb Gyngor Tref/Cymuned	£0	£0	£0	£ 2,218.36 (wedi'i drosglwyddo o 17/18) i'w wario yn Ward De Aberaman